Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus

Ffurflen
**OPG120**

# Help gyda thalu ffioedd dirprwy OPG

Medrwch ddefnyddio'r ffurflen hon os ydych yn ddirprwy wedi'ch penodi gan y Llys Gwarchod a bod y person rydych yn gweithredu ar ei rhan/ran (eich 'cleient') angen help gyda thalu eu ffioedd dirprwy Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (OPG).

Medrwch wneud cais am:

- **eithriad** – pan nad oes rhaid i'ch cleient dalu ffioedd dirprwy gan eu bod yn derbyn rhai buddion moddion-prawf
- **lleihad** – pan fydd eich cleient yn derbyn gostyngiad o 50% mewn ffioedd dirprwy ar sail eu hamgylchiadau ariannol.

Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus

# Canllawiau

| Ffi | Llawn | Lleihad | Eithriad |
|---|---|---|---|
| Asesiad dirprwy | £100 | £50 | £0 |
| Goruchwyliaeth gyffredinol | £320 | £160 | £0 |
| Goruchwyliaeth isafol | £35 | Ddim ar gael | £0 |

## Ffioedd dirprwy

Wedi i chi ddod yn ddirprwy, bydd angen i chi dalu **ffi asesiad dirprwy** i'r Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus a **ffioedd goruchwyliaeth** (cyffredinol neu isafol) ar ran eich cleient.

Medrwch dalu'r ffioedd dirprwy naill ai:

- yn uniongyrchol o gronfeydd eich cleient
- o'ch cronfeydd eich hun a hawlio'r arian yn ôl wrth eich cleient.

### Ffi asesiad dirprwy

Tâl untro yw hwn sydd yn cwmpasu cost asesu'r lefel o oruchwyliaeth sydd ei hangen ar ddirprwy.

Bydd angen i chi dalu hyn unwaith mae'r Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn derbyn gorchymyn y Llys Gwarchod.

### Ffioedd goruchwylio

Mae'r rhain yn cwmpasu cost dirprwyon sy'n goruchwylio.
Rhaid i chi eu talu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

## Gostyngiadau mewn ffioedd dirprwy

Efallai bydd gan eich cleient hawl i ostyngiad yn eu ffioedd dirprwy, yn ddibynnol ar eu harian. Medrwch wneud cais am:

- eithriad – lle na fydd eich cleient yn talu unrhyw ffioedd
- lleihad – lle bydd eich cleient yn talu 50% o'r ffioedd.

Medrwch hefyd wneud cais am ddyfarndal estynedig am hyd at dair blynedd.

### Eithriadau

Bydd gan eich cleient hawl i eithriad rhag ffioedd dirprwy os ydynt:

- yn derbyn rhai buddion moddion prawf
- heb dderbyn mwy na £16,000 o iawndal am niwed personol (a anwybyddwyd pan gafodd eich cleieint asesiad ar gyfer y budd-dal).

Mae buddion cymwys yn cynnwys:

- Elfen Credyd Gwarant o Gredyd Pensiwn
- **Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA)** ar sail incwm
- **Lwfans Ceisio Gwaith (JSA)** ar sail incwm
- Cymhorthdal Incwm
- Budd-dal Tai
- Budd-dal Treth Cyngor (nid y lleihad o 25% ar gyfer person sengl nac unrhyw eithriadau eraill)
- Lwfans Tai Lleol
- Credyd Cynhwysol
- cyfuniad o Gredyd Treth Gwaith ac o leiaf un o Gredyd Treth Plant, Elfen Anabledd o Gredyd Treth Gwaith neu Elfen Anabledd Difrifol o Gredyd Treth Gwaith.

Byddwn yn ysgrifennu atoch i ddweud am ba hyd mae'r dyfarndal eithriad yn parhau. Ni fydd angen i chi wneud cais arall nes i'r dyfarndal ddod i ben.

## Lleihadau

Gall eich cleient fod yn gymwys i dalu llai o ffioedd dirprwy (ond nid isafswm y ffioedd dirprwy) os yw eu hincwm gros blynyddol yn llai na £12,000.Mae ffynonellau incwm yn cynnwys:

- cyflogaeth
- credyd pensiwn
- budd-daliadau a phensiynau nad ydynt fuddion moddion-prawf, gan gynnwys Lwfans Gweini (AA), Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) a Thaliad Annibyniaeth Personol (PIP).
- Credyd Cynhwysol
- pensiynau'r wladwriaeth a phreifat
- incwm o eiddo ar rent
- llog o fuddsoddiadau cyfalaf a chynilion.

Byddwn yn ysgrifennu atoch i ddweud am ba hyd mae'r dyfarndal lleihad yn parhau. Ni fydd angen i chi wneud cais arall nes i'r dyfarndal ddod i ben.

Pan fyddwn wedi caniatáu dyfarndal estynedig eisoes, bydd yr anfonebau ffi a drosglwyddir i'r dirprwy yn cynnwys y lleihad, ac ni fedrwn leihau ymhellach.

## Dyfarniadau estynedig

Mae dyfarniad estynedig yn caniatáu peidio â chodi tâl neu gael eich esgusodi am hyd at dair blynedd. Fodd bynnag mae angen i chi fod yn ymwybodol:

- bod derbyniad yn dibynnu ar os yw budd-dal neu incwm eich cleient yn debygol o fod yr un peth am y tair blynedd nesaf
- gall Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus adolygu'r dyfarniad ar unrhyw adeg
- rhaid i chi ddweud wrth Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus cyn gynted â phosibl os bydd incwm neu fudd-daliadau eich cleient yn newid.

## Credyd Cynhwysol

Gall eich cleient wneud cais am eithriad neu leihad os ydynt yn derbyn Credyd Cynhwysol.

Anfonwch gopi o ddatganiad Credyd Cynhwysol eich cleieint (ynghyd a ffurflen OPG120) wedi'i chwblhau) i'r Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus at y cyfeiriad yn yr adran 'Sut i wneud cais'.

Medrwch gael gafael ar y datganiad hwn drwy lofnodi mewn i gyfrif Credyd Cynhwysol eich cleient ar:

**www.gov.uk/sign-in-universal-credit**.

# Tystiolaeth dderbyniol

Rhaid i unrhyw dystiolaeth rydych yn ei chyflwyno:

- gynnwys teitl eich cleient, enw llawn, cyfeiriad a chod post
- gynnwys faint o fudd-dal neu incwm a delir
- fod yn berthnasol i'r cyfnod mae'r ffi yn cwmpasu.

## Eithriadau

Rhaid i chi gyflwyno llythyr neu hysbysiad oddi wrth yr un sy'n daparu'r budd-dal yn cadarnhau bod eich cleient wedi derbyn budd-dal cymwys yn ystod y cyfnod mae'r ffi yn cwmpasu.

## Lleihadau

Rhaid i chi gyflwyno prawf o incwm eich cleient o:

- **gyflogaeth yn y gorffennol** y tri slip cyflog cydolynol o'r gyflogaeth gyfredol
- **fudd-daliadau a phensiynau nad ydynt fuddion moddion-prawf, pensiynau preifat neu bensiynau gwaith** – llythyr swyddol neu hysbysiad wrth yr un sy'n talu
- **llog a buddrannau o gyfalaf, stociau, cyfrannau neu fondiau** – datganiadau, talebau neu dystysgrifau treth yn dangos incwm gros
- **hunan-gyflogaeth** – y ffurflen dreth ddiweddaraf (hunan asesiad) a Chyfrifo Treth Hunan Asesiad diweddaraf CThEm.

Nid ydym yn derbyn datganiadau banc fel prawf o incwm.

Os nad oes gan eich cleientunrhywincwm, bydd angen i chi gyflwyno datganiad ysgrifenedig wedi'i llofnodi i ddatgan hynny gyda'r cais hwn.

I gael lleihad mewn ffioedd goruchwylio cyffredinol, rhaid i chi gyflwyno tystiolaeth yn dangos incwm a dderbyniwyd yn y cyfnod o 12 mis cyn dyddiad yr anfoneb.

## Sut i wneud cais

Llenwch ffurflen OPG120 a'i hanfon gyda thystiolaeth atoddol i:

Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus
Blwch Post 16185
Birmingham B2 2WH

DX: 744240 Birmingham 79

**Ffacs:** 0870 739 5780

**E-bost:** customerservices@publicguardian.gov.uk

Sicrhewch bod y Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn derbyn eich cais o fewn chwe mis i'r dyddiad mae'r ffi i'w thalu.

## Cyni

Os nad yw eich cleient yn gymwys ar gyfer eithriad neu leihad, ond byddai talu ffioedd dirprwy yn achosi cyni, medrwch ysgrifennu at Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus i ofyn am i'r ffioedd dirprwy gael eu gostwng.

Bydd angen i chi anfon copïau atom o ddatganiadau atodol a dogfennau yn dangos cynilion, incwm ac alldaliadau.

## Gwybodaeth bellach

**Ffôn:** 0300 456 0300
(agored 9am-5pm yn ystod yr wythnos, ar wahân i ddydd Mercher 10am-5pm)

**Ffôn testun:** 0115 934 2778

**Gwefan:** gov.uk/become-deputy/fees

## Sut i dalu

Medrwch dalu ffioedd dirprwy eich cleient naill ai:

- yn uniongyrchol o gronfeydd eich cleient
- o'ch cronfeydd eich hun a hawlio'r arian yn ôl wrth eich cleient.

### Trosglwyddiad o'r banc neu fancio ar-lein

Dyma ein manylion banc:

- cod didoli: 60-70-80
- rhif y cyfrif: 10029052

Cofiwch nodi rhif eich achos (cyfeirnod OPG).

### Debyd Uniongyrchol

E-bostiwch **OPGFinance@publicguardian.gov.uk** i ofyn am ffurflen gyfarwyddyd.

### Cerdyn credyd neu ddebyd

Rhowch ganiad i'n llinell dalu goruchwylio ar: 0121 600 6118.

Bydd angen i chi roi manylion eich cerdyn talu ac anfoneb i ni.

Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus

Rhaid i chi gyflwyno tystiolaeth atodol os ydych yn gwneud cais am eithriad neu leihad.

# Cael cymorth i dalu ffioedd dirprwy OPG

Adran 1

## Case information

**Rhif achos** | | | | | | | | | | | | |

### Manylion eich cleient

Teitl

Enw llawn

Cyfeiriad

Cod post

**Gyda beth mae eich cleient angen help?**

- [ ] Ffi asesiad dirprwy
- [ ] Ffi goruchwylio cyffredinol
- [ ] Ffi goruchwylio isafol

### Ble rydych yn cael hyd i'r rhif achos

Bydd eich rhif achos ar bob llythyr rydych yn ei dderbyn wrthom ni - chwiliwch am 'gyfeirnod OPG'.

Adran 2
# Amdanoch chi

**Beth yw eich perthynas â'r cleient?**

☐ Dirprwy

☐ Cyfreithiwr

☐ Arall (nodwch isod os gwelwch yn dda)

Teitl

Enw llawn

Cyfeiriad

Cod post

Ffôn

E-bost

Os ydych wedi talu'r ffi eisoes, i bwy yr hoffech i'r ad-daliad gael ei wneud os yw eich cais yn llwyddiannus?

**Am ba leihad yn ffi'r dirprwy rydych yn gwneud cais?**

☐ Eithriad – ewch i adran 3

☐ Lleihad – ewch i adran 4

Adran 3

# Fee exemption based on qualifying benefits

**3a. Pa fudd-dal mae eich cleient yn ei dderbyn?**

- [ ] Cymhorthdal incwm
- [ ] **Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA)** ar sail incwm
- [ ] Ceisio Gwaith (JSA) **ar sail incwm**
- [ ] **Pensiwn Budd-dal**
- [ ] Tai y Wladwriaeth Lwfans
- [ ] Cymhorthdal/Lleihad Treth Cyngor - a elwir yn enwau eraill (nid y disgownt 25% i berson sengl)
- [ ] Lwfans Tai Lleol
- [ ] Cyfuniad o Gredyd Treth Gwaith ac o leiaf un o'r:
  - Credyd Treth Plant
  - Elfen Anabledd Credyd Treth Gwaith
  - Elfen Anabledd Difrifol o Gredyd Treth Gwaith
- [ ] Credyd Cynhwysol

Ni fedrwch wneud cais am eithriad ar sail: Lwfans Byw i'r Anabl (DLA), Lwfans Gweini (AA) neu Taliad Annibyniaeth Personol (PIP).

**3b. Yw eich cleient wedi derbyn dyfarndal niwed personol o fwy na £16,000?**

- [ ] Ydyw – atebwch gwestiwn 3c
- [ ] Na

**3c. A gawsai'r dyfarndaliadau eu hanwybyddu pan gafodd eich cleient asesiad ar gyfer y budd-daliadau cymwys?**

- [ ] Ydyw
- [ ] Naddo

# Adran 4
## Lleihad yn y ffi ar sail incwm blynyddol

**Ydyw incwm blynyddol gros eich cleient yn llai na £12,000?**

- [ ] Ydyw
- [ ] Naddo

! I wneud cais am leihad rhaid i chi gyflwyno prawf o incwm gros eich cleient a thalu hanner y ffi a anfonebwyd.

# Adran 5
## Dyfarndal estynedig

**Ydych chi'n gwneud cais am ddyfarndal estynedig?**

- [ ] Ydwyf
- [ ] Nac ydwyf

# Adran 6
## Datganiad

Rwyf yn datgan bod yr wybodaeth rwyf wedi cyflwyno yn wir hyd y gwn i.Rwyf yn cynnwys y dystiolaeth ddogfennol a fynnir i ategu'r cais am eithriad neu leihad yn y ffi.Rwyf yn deall y caiff y cais hwn ei wrthod os na fedraf gyflwyno'r dystiolaeth.

Os caiff fy nghleient ddyfarndal estynedig, rwyf yn ymrwymo i roi gwybod i'r Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus ar unwaith os:

- ar gyfer eithriad, bydd hawl fy nghleient i fuddion cymwys yn dod i ben
- am leihad, bod newid yn amgylchiadau ariannol fy nghleient a fyddai'n effeithio ar eu hawl.

Llofnod

Enw

Dyddiad

Diwrnod | Mis | Blwyddyn

! Gallwch arwyddo trwy deipio eich enw i'r blwch Llofnodi, neu mae'n bosibl y gallwch ddefnyddio meddalwedd PDF i wneud llofnod eich hunan ar eich cyfrifiadur

I gael eich ystyried ar gyfer dileu ffi, darparwch gopïau o dystiolaeth ddogfennol gan yr holl ddarparwyr taliadau neu fudd-daliadau, sy'n dangos bod y CLEIENT yn derbyn incwm blynyddol gros o lai na £12,000 yn y flwyddyn/blynyddoedd ariannol dan sylw. Llenwch y tabl isod i gadarnhau incwm y cleient o bob ffynhonnell.

| **Darparwr Taliad neu Fudd-dal** | **Cyfanswm Derbyniadau Blynyddol** |
|---|---|
| Lwfans Gweini | £ |
| Lwfans Byw i'r Anabl | £ |
| Lwfans Annibyniaeth Bersonol (PIP) | £ |
| Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Gyfraniadau (ESA) | £ |
| Credyd Cynilion Pensiwn | £ |
| Pensiwn y Wladwriaeth | £ |
| Pensiynau preifat | £ |
| Incwm rhent o eiddo | £ |
| Incwm o gyflogaeth | £ |
| Llog o fuddsoddiadau cyfalaf a chynilion | £ |
| Credyd Cynhwysol | £ |
| Math arall o incwm | £ |
| Cyfanswm | **£** |